



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref
David Jones OBE, DL
Cadeirydd Cymwysterau Cymru
a
Philip Blaker,
Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Pencarn Lane,
Casnewydd
NP10 8UH

19 Chwefror 2021

Annwyl Philip a David

Ysgrifennaf yn dilyn fy llythyr, dyddiedig 19 Ionawr, yn amlinellu fy mwriad i fabwysiadu cynigion polisi diwygiedig y Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni mewn perthynas â chymwysterau cyffredinol a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru.

Pwrpas y llythyr hwn yw rhoi'r Cyfarwyddyd amgaeedig ichi o dan adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 i roi sylw i bolisi Gweinidogion Cymru ynghylch canslo arholiadau a mabwysiadu model sy'n rhoi'r gwaith o ddyfarnu graddau i ganolfannau.

Er mwyn hyrwyddo tryloywder ledled Cymru, fy mwriad yw gweld trefniadau yn cael eu datblygu hefyd i hwyluso deialog broffesiynol rhwng canolfannau. Rwy'n sicr nad mater i Cymwysterau Cymru fydd cynllunio na gweithredu hyn, gan nad CBAC fydd yn gwneud nac unrhyw gorff arall a reoleiddir gennych chi, ac felly nid yw'n rhan o'ch fframwaith rheoleiddio chi. Fodd bynnag, rwyf am i hyn fod yn rhan o'r trefniadau cyffredinol wrth i ganolfannau fynd ati i bennu graddau. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn ymchwilio i ystod o opsiynau ar gyfer canolfannau, a byddwn yn darparu cymorth a hwylustod. Ni fydd hyn yn disodli unrhyw broses sicrhau ansawdd allanol a ddatblygwch gyda CBAC, ond bydd angen i unrhyw opsiynau newydd gyd-fynd â honno. Rydych yn un o arsylwyr y Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni lle mae'r cynigion hyn yn cael eu datblygu.

Rwy'n hyderus bod y dull gweithredu hwn yn sicrhau mai lles a chynnydd dysgwyr sy'n cael y lle canolog, a'i fod yn hyblyg ac yn ymateb i'r heriau rydym yn parhau i'w hwynebu. Rwy'n hynod ddiolchgar am y gwaith caled a'r ymroddiad y mae eich sefydliad wedi'i ddangos er mwyn ein galluogi i gyrraedd y pwynt hwn, ond rwy'n cydnabod hefyd bod gwaith sylweddol o'n blaenau er mwyn llwyddo.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, mae'n glir i mi bod hwn yn gyfrifoldeb i'r sector addysg yn ei gyfanrwydd, a bod yn rhaid inni dynnu ynghyd i gydgyflawni dros ein dysgwyr – drwy roi'r trefniadau asesu hyn ar waith, ond hefyd drwy barhau yn ein hymrwymiad i addysgu a dysgu, a phecyn cymorth ehangach i ddatblygu dysgwyr.

Edrychaf ymlaen at barhau i gydweithio'n agos â chi dros y misoedd nesaf.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, reading 'Kirsty Williams' in a cursive style.

Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

CYFARWYDDYD O DAN ADRAN 53 O DDEDDF CYMWYSTERAU CYMRU 2015

O dan adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, rhaid i Cymwysterau Cymru roi sylw i agweddau ar bolisi llywodraeth yn ôl fel y bydd Gweinidogion Cymru yn ei gyfarwyddo.

Mae'r Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru, yn rhoi cyfarwyddyd i Cymwysterau Cymru roi sylw i:

ddatganiad polisi ynghylch datblygu trefniadau asesu amgen ar gyfer dysgwyr yng Nghymru a oedd i fod i sefyll arholiadau TGAU, Safon UG a Safon Uwch a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru yr haf hwn, i gefnogi eu datblygiad i'r dyfodol, dyddiedig 20 Ionawr 2021, a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru, ac sydd i'w weld drwy'r ddolen ganlynol (ac a grynhoir yn y pwyntiau bwled isod):

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-wybodaeth-ddiweddaraf-am-gymwysterau-cyffredinol-yn-2021-0>

- Polisi Llywodraeth Cymru yw na ddylai carfan haf 2021 o ddysgwyr TGAU, Safon UG a Safon Uwch yng Nghymru sy'n dilyn cyrsiau cymwysterau a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru sefyll arholiadau wedi'u cydlynu a'u hamserlennu'n genedlaethol yr haf hwn. Yn hytrach, dylid defnyddio model sy'n rhoi'r gwaith o ddyfarnu graddau cymwysterau dysgwyr i ganolfannau, hynny yw eu hysgol neu eu coleg, ar sail asesiad o waith y dysgwyr.
- Dylai ysgolion a cholegau allu defnyddio ystod o dystiolaeth i bennu'r graddau a ddyfernir i'w dysgwyr. Dylid llunio fframwaith asesu i gefnogi ysgolion a cholegau i ddatblygu eu cynlluniau asesu. Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion a cholegau wrth benderfynu pa wybodaeth asesu i'w defnyddio wrth iddynt ganolbwyntio ar addysgu cynnwys craidd eu cyrsiau a fydd yn helpu dysgwyr wrth symud ymlaen at gam nesaf eu haddysg.
- Dylid sicrhau ansawdd y cynlluniau asesu hyn a dylent ddangos sut bydd y ganolfan yn mynd ati i bennu gradd dysgwr. Dylai fod yn ofynnol i bob ysgol a choleg sefydlu a gweithredu proses sicrhau ansawdd sy'n pennu graddau cywir ar gyfer eu dysgwyr. Dylid darparu canllawiau. Unwaith bydd proses sicrhau ansawdd y ganolfan wedi'i chwblhau, caiff y radd ei chyflwyno i CBAC. Er na fydd yna broses gymedroli, mae'n bosibl y caiff proffiliau graddau a gyflwynwyd eu hadolygu, ac y caiff unrhyw broffiliau anarferol eu trafod gyda'r ganolfan.
- Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid cefnogi canolfannau i drafod eu proses, sut y caiff eu proses ei gweithredu, ynghyd â'u deilliannau â chanolfannau eraill ledled Cymru cyn cyflwyno eu graddau i CBAC. Er na ddylai'r broses hon fod yn rhan o fframwaith rheoleiddio Cymwysterau Cymru, gan na chaiff ei datblygu na'i gweithredu gan CBAC nac unrhyw gorff arall a reoleiddir ganddo, polisi Llywodraeth Cymru yw y dylai Cymwysterau Cymru nodi'r canllawiau a ddatblygir, gan y dylent fod yn rhan o'r broses gyffredinol o roi'r gwaith o ddyfarnu graddau i ganolfannau.
- Dylid datblygu proses apelio sy'n galluogi dysgwyr i apelio i'w hysgol neu eu coleg os ydynt o'r farn nad yw'r radd a ddyfarnwyd iddynt yn adlewyrchu eu lefel cyrhaeddiad, ac i CBAC os ydynt o'r farn nad yw eu canolfan wedi dilyn proses briodol.
- Dylid gwneud trefniadau, fel rhan o'r model sy'n rhoi'r gwaith o ddyfarnu graddau i ganolfannau, i gefnogi datblygiad ymgeiswyr preifat drwy eu galluogi hwythau i ennill cymwysterau.

- Dylai dysgwyr Blwyddyn 10 sy'n cwblhau eu cymwysterau eleni gael gradd a bennir gan ganolfan, ond ni ddylid asesu unedau unigol. Dylai dysgwyr Blwyddyn 12 sy'n dilyn cyrsiau Safon UG gael gradd a bennir gan ganolfan, ond ni fydd hyn yn cyfrannu at eu dyfarniad Safon Uwch yn 2022.
- Dylai'r Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni barhau i weithio gyda Cymwysterau Cymru a CBAC wrth iddynt sefydlu'r sail reoleiddiol a gweithredol dros y model sy'n rhoi'r gwaith o ddyfarnu graddau i ganolfannau a'r trefniadau gweithredu cysylltiedig.